**LGH-16-01 (min)**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 5 Rhagfyr 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.30 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| John Bader | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Harry Lloyd | Y Gyfarwyddiaeth Dai |

| | |
|---|---|
| Francois Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Y Cyng Syr Harry Jones | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Stecen Thomas | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Sandy Blair | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Nifrod Jones | Grassroots |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno bod cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'w gynnal ar 10 Ionawr. Byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio ar yr adolygiad polisi o adfywio cymunedol. Roedd barn y Pwyllgor wedi ei chymryd i ystyriaeth wrth lunio'r amserlen ddrafft, a anfonwyd at yr Athro Dave Adamson am ei sylwadau.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tom Middlehurst.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Aelod o Gyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac yn feddyg teulu;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion pellach am y partneriaethau a fyddai'n datblygu ym mhob un o'r ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn dilyn yr ymarferiad mapio a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd. Yn ogystal, cytunodd i gynnwys manylion yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf am y cyllid a oedd wedi ei ddyrannu i awdurdodau lleol a phartner sefydliadau i'w cynorthwyo i weithredu Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

3.2 Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor fod y gwerthusiad interim o Pobl mewn Cymunedau wedi canfod nifer o ddiffygion yn y rhaglen. Cafodd y rhain eu defnyddio wedyn i lywio datblygiad Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac roeddynt yn cynnwys darparu canllawiau clir, annog arbrofi a hyrwyddo dull cyfannol o ymdrin â'r broses adfywio. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu copi o'r gwerthusiad o Pobl mewn Cymunedau i'r Aelodau ac i ddod â phapur gerbron y Pwyllgor maes o law.

3.3 Nododd yr Aelodau fod pob cyngor wedi cynnal grwpiau ffocws ac arolygon aelwydydd a roddai lais i etholwyr lleol ac eraill sydd â buddiant tra'r oedd yr awdurdodau lleol yn ymgynghori yngln â'r strwythurau rheoli gwleidyddol newydd.

3.4 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys yn ei hadroddiad nesaf ganlyniad yr asesiad a wnaed o ddeunydd cyhoeddusrwydd a ddefnyddiwyd tra'n ymgynghori yngln â'r strwythurau rheoli gwleidyddol newydd. Yn ogystal, cytunodd i hysbysu'r Pwyllgor am gynigion awdurdodau lleol o ran yr opsiwn y maent yn ei ffafrio o blith y strwythurau rheoli gwleidyddol, gan gynnwys achosion lle mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu strwythur gwahanol i'r un a nodwyd yn ystod yr ymgynghori fel y strwythur a gâi ei ffafrio.

3.5 Dywedodd y Gweinidog fod cymeradwyaeth wedi ei rhoi i dri allan o'r chwe chais a ailgyflwynwyd i'r Gronfa Adfywio Leol ar ôl iddynt fethu ennill cefnogaeth yn y cylch blaenorol wrth ymgeisio o dan y drefn lle nad oes angen nawdd cyfatebol.

3.6 Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor y câi cyhoeddiad ei wneud yn y cyfarfod llawn ar 6 Rhagfyr yngln â throsglwyddo adnoddau sy'n effeithio ar y Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Leol a Thai.

3.7 Dywedodd y Gweinidog fod y Strategaeth Dai Genedlaethol, a nodai weledigaeth hirdymor y Cynulliad i dai, wedi ei chyhoeddi. Roedd yn bwysig i'r Cynulliad weithio gyda darparwyr tai a thenantiaid er mwyn ymateb i sialensiau'r Strategaeth a chyflawni'r Safon Ansawdd i Dai yng Nghymru erbyn 2012. Cynhaliwyd seminar i gynrychiolwyr awdurdodau lleol ar 28 Tachwedd i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth i gynnal seminarau i denantiaid, gan y byddai hynny'n hwyluso'r ffordd i'w cynnwys mewn datblygiadau a fydd yn deillio o'r Strategaeth ac yn darparu gwybodaeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran ei rhoi ar waith.

3.8 Mewn ateb i gwestiwn ynghlyn ag amseriad y benderfynu i aildrefnu y Swyddfa Renti ddynodedig i Gymru, dynododd y Gweinidog bod y fater o dan ystyriaeth. Byddai'n gwneud penderfyniad terfynol yn fuan ac mi fyddai'n cynghori'r Pwyllgor yn Ionawr. Byddai'n bwysig cynnal dadansoddiad cost a budd o'r opsiynau sydd ar gael cyn dod i benderfyniad pendant.

3.9 Dywedodd y Gweinidog bod y tai cyntaf i ymgorffori'r Cartrefi Oes wedi ei gwblhau gan Gymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewinyn y Prosiect Adfywio Bettws ym Mhen-y-bont. Roedd pob t newydd a godwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o Ebrill 2001 wedi'i godi yn unol â'r safonau Cartrefi Oes. Nod hyn oedd dod â mwy o gartrefi o fewn cyrraedd i bobl ag anabledd a chreu stoc tai mwy hyblyg, a fyddai'n darparu cartrefi y gellid eu haddasu. Roedd gwaith pellach ar y gweill i edrych ar oblygiadau ymarferol cyflwyno nodweddion dylunio dirwystr mewn cynlluniau ailsefydlu. Cytunodd y Pwyllgor i ymweld â'r datblygiad Cartrefi Oes yn y Bettws, Pen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â datblygiadau eraill cyhoeddus a phreifat ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

3.10 Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol ennill ymrwymiad y sector preifat, gan gynnwys perchen-breswylwyr, i ddefnyddio egwyddorion Cartrefi Oes mewn datblygiadau newydd. Teimlai'r Aelodau y gellid dynodi mesurau priodol i annog adeiladwyr preifat i fabwysiadu'r safonau Cartrefi Oes. Cytunodd y Gweinidog i drafod y posibilrwydd o ddarparu Cartrefi Oes gyda datblygwyr preifat.

3.11 Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor fod grantiau gwerth £300,000 wedi eu rhyddhau i raglenni gan y sector gwirfoddol i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu allan yn ystod misoedd y gaeaf. Cytunodd i gylchredeg manylion prosiectau unigol a fyddai'n derbyn grantiau o dan y Rhaglen Digartrefedd a Chysgu Allan yn 2001-02 i'r Pwyllgor.

3.12 Croesawai’r Aelodau y gefnogaeth sy'n dal i gael ei rhoi i brosiectau digartrefedd. Teimlid bod hynny yn ailgadarnhau ymroddiad y Cynulliad wrth fynd i'r afael â digartrefedd, a wnâi gyfraniad sylweddol tuag at ostwng y niferoedd sy'n cysgu allan yng Nghymru a'r DU. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf am y gyfran o gyllid grant y Cynulliad a neilltuir ar gyfer digartrefedd, i gynorthwyo pobl ddigartref i symud ymlaen i lety diogel.

3.13 Nododd y Pwyllgor fod Mesur Aelod Preifat y Dr Des Turner: Mesur Cadwraeth Ynni yn y Cartref 2001 wedi mynd drwy ei ail ddarlleniad yn y Senedd ar 30 Tachwedd. Roedd y Mesur yn cynnwys cynigion i gyflwyno trefn orfodol i gofrestru Tai mewn Aml-ddaliadaeth, a oedd yn gam hanner ffordd tuag at drwyddedu llawn.

**Eitem 4: Ystyried model y Cwmni Cydfuddiannol Cymunedol ar gyfer trosglwyddo stoc tai: LGH-16-01 (p.1)**

4.1 Dywedodd y Gweinidog fod y gymuned tai yn gyffredinol yn cefnogi model y Cwmni Cydfuddiannol Cymunedol ar gyfer trosglwyddo stoc tai. Mae'r model hwn wedi'i amlinellu yn y Strategaeth Dai Genedlaethol. Sail cwmnïau cydfuddiannol cymunedol oedd y byddai perchenogaeth stoc awdurdod lleol, yn dilyn pleidlais ymysg y tenantiaid, yn cael ei throsglwyddo i'r corff newydd. Tenantiaid fyddai'r unig rai â buddiant yn y corff hwnnw.

4.2 Roedd Gweithgor wedi ei sefydlu i gynorthwyo i dywys y model hwn yn ei flaen. Roedd aelodaeth y Gweithgor yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor y Benthycwyr Morgeisi a Chymdeithas Adeiladu'r Nationwide.

4.3 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd yna gefnogaeth gyffredinol i fodel y Cwmni Cydfuddiannol Cymunedol lle tybid mai trosglwyddo'r stoc tai oedd yr opsiwn mwyaf ffafriol er mwyn sicrhau buddsoddiad i fynd i'r afael â'r gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd wedi cronni ar dai awdurdodau lleol. Cydnabyddai'r Pwyllgor nad oedd cysyniad y cwmni cydfuddiannol ond yng nghamau cynnar ei ddatblygiad yng nghyd-destun trosglwyddo stoc tai. Teimlid y byddai angen gwaith pellach i ddarparu strwythur cyfansoddiadol a rheolau enghreifftiol er mwyn i gysyniad y cwmni cydfuddiannol cymunedol gael ei dywys yn ei flaen yn effeithiol.
- Roedd yr Aelodau yn croesawu defnyddio'r gwargedau a gynhyrchid o dai cymdeithasol cwmnïau cydfuddiannol cymunedol i gynorthwyo i adfywio'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, os oedd gwargedau i gael eu defnyddio i gyllido prosiectau adfywio, a fyddai o fudd i'r gymuned gyfan, byddai'n rhaid cael cynrychiolwyr o'r gymuned ehangach ar fwrdd y corff newydd. Nodwyd y byddai bwrdd y cwmni cydfuddiannol cymunedol wedi'i seilio ar egwyddor y tri thraen (i gynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol), a fyddai'n caniatáu'r hyblygrwydd i denantiaid i ethol cynrychiolwyr cymunedol priodol.
- Codwyd pryder yngln â lefel yr arbenigedd y byddai ei hangen ar denantiaid i dywys y model yn ei flaen. Fodd bynnag, awgrymwyd y byddai ymwneud uniongyrchol tenantiaid ym mherchenogaeth a rheolaeth eu tai, sef y sylfaen y ffurfiwyd y model arni, yn cynyddu'r potensial i rymuso'r gymuned a meithrin gallu. Yn ogystal, teimlid y gallai partneriaethau a oedd yn bodoli'n barod, a sefydlwyd i gynorthwyo'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, helpu i feithrin gallu mewn ardaloedd lle byddai'r model ar waith.
- Teimlai'r Aelodau y byddai'n rhaid i'r corff, a fyddai'n eiddo i denantiaid, fabwysiadu polisi gosod a dyrannu priodol. Awgrymwyd y gallai fod yna wrthdaro rhwng buddiannau buddianwyr a darpar denantiaid a allai yn draddodiadol efallai fod wedi eu cau allan o dai cymdeithasol.
- Nododd y Pwyllgor y byddai'r corff newydd yn cael ei reoleiddio gan y Cynulliad yn yr un ffordd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig presennol. Byddai gofyn iddo gyflawni'r un gofynion rheoleiddio o ran rheoli a llywodraethu a byddai'n atebol yn ariannol.

4.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth ddatblygu model tai y cwmni cydfuddiannol cymunedol. Gwahoddodd y Gweinidog yr Aelodau i ddarparu sylwadau ysgrifenedig ar y model a chytunodd i drafod y pryderon a godwyd gyda'r Gweithgor. Yn ogystal, cytunodd i roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd a wneir ar y strwythur cyfansoddiadol ac ar ddatblygu rheolau enghreifftiol i gwmnïau cydfuddiannol cymunedol yng nghyd-destun trosglwyddo stoc tai.

**Eitem 5: Adroddiad cyfamserol ar arolygon cyflwr stoc tai yr awdurdodau lleol: LGH-16-01 (p.2)**

5.1 Dywedodd y Gweinidog fod canllawiau ar y broses o gynnal arolygon cyflwr stoc o stoc tai

awdurdodau lleol wedi eu cyhoeddi yn Ionawr 2001 yn dilyn arolygon peilot a gynhaliwyd gan 5 awdurdod lleol. Yn dilyn yr arolygon hyn, roedd cyllid grant o £750,000 dros gyfnod o dair blynedd wedi ei ddarparu i gyllido rhaglen o arolygon cyflwr stoc gan awdurdodau lleol.

5.2 Hysbysodd y Pwyllgor fod cynigion wedi ei derbyn gan 12 awdurdod lleol, a bod 8 o'r rheini eisoes wedi derbyn cyllid grant o 50 y cant, cyfanswm o £588,000, tuag at gost yr arolygon cyflwr stoc arfaethedig.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol hyd yma ar gynnal arolygon cyflwr stoc. Byddai'n holl-bwysig annog gweddill yr awdurdodau i gynnal arolygon ar eu stoc tai. Byddai'r arolygon hyn yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol faint o waith atgyweirio a chynnal a chadw a'u hwynebai o safbwynt eu stoc tai a byddai'n bosibl wedyn cynhyrchu cynlluniau amserol i wireddu tai o'r safon a gâi ei nodi yn y Strategaeth Dai Genedlaethol.
- Codwyd rhywfaint o bryder na fyddai'r cyllid grant sydd dros ben, £162,000 i gyd, yn ddigon i gyllido'r arolygon cyflwr stoc sy'n weddill ymysg yr awdurdodau lleol yn ddigonol. Nodwyd bod ystod y grantiau a ddyrannwyd hyd yma rhwng £50,000 a £160,000 a'u bod yn amrywio yn ôl maint yr awdurdod lleol a chyfran y tai a gâi eu harolygu. Roedd y Gweinidog yn ymwybodol o oblygiadau ariannol yr arolygon a oedd yn weddill.
- Teimlai rhan fwyaf yr Aelodau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i'r arolygon cyflwr stoc gael eu cynnal ar lefel leol oedd gan awdurdodau unigol, a oedd â gwybodaeth helaeth am eu stoc tai. Fodd bynnag, cytunwyd y gellid edrych ar arolygon cyflwr stoc tai, a seilir ar fethodoleg gyffredin, yn eu cyfanrwydd, er mwyn rhoi adlewyrchiad cywir o gyflwr y stoc tai Genedlaethol. Yn yr un modd, byddai'n bosibl darparu cymariaethau o fewn stoc tai awdurdodau lleol unigol a rhyngddynt.
- Nododd y Pwyllgor y byddai'n ofynnol, yn ystod 2002, i bob awdurdod lleol fesur maint y fuddsodiad sy'n ofynnol o fewn ei stoc tai i sicrhau yr Ansawdd Safonol i dai Gymmraeg . Byddai'r wybodaeth fanwl hon am gyflwr eu stoc tai yn llywio'r gwaith o gynhyrchu cynlluniau adfywio; rhaid i'r cynlluniau hyn ddangos y bydd y stoc tai yn sicrhay y safon erbyn 2012. Cydnabyddai'r Aelodau y byddai awdurdodau lleol yn parhau i atgyweirio a chynnal a chadw eu stoc tra'r oedd arolygon cyflwr yn cael eu cynnal. Yn yr un modd, byddai disgwyl iddynt geisio ffyrdd o sicrhau buddsoddiad i wella eu tai. Yn wyneb hynny, byddai'n bwysig i awdurdodau lleol ddiweddaru eu harolygon cyflwr stoc tai yn barhaus er mwyn cymryd gwaith sydd ar y gweill i ystyriaeth.

5.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth fonitro cynnydd pellach arolygon cyflwr stoc awdurdodau lleol.

**Eitem 6: Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU: LGH-16-01 (p.3)**

6.1 Dywedodd y Gweinidog y byddai Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU yn help i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflawni ei rwymedigaethau o dan Deddf Cartrefi Cynnes a Chadwraeth Ynni 2000. O dan y Ddeddf hon mae'n ofynnol i'r Cynulliad ddatblygu strategaeth sy'n pennu pecyn o fesurau

a thargedau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Roedd yna ymrwymiad ar draws y llywodraeth i ddileu tlodi tanwydd ac roedd i hynny oblygiadau cymdeithasol ehangach o ran iechyd a chynhwysiant cymdeithasol.

6.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU a'r cynnydd a wnaed gan y Cynulliad hyd yma i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Nodwyd bod y Cynulliad yn anelu at helpu 38,000 o aelwydydd, a oedd yn debygol o fod yn dioddef tlodi o safbwynt tanwydd, drwy'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (HEES). Roedd y Cynllun yn darparu ystod o fesurau gwresogi ac ynysu i gartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd. Nododd yr Aelodau fod oddeutu 14,000 o aelwydydd wedi elwa o'r Cynllun hyd yma.
- Croesawai'r Aelodau y pwyslais oedd yn cael ei roi ar ymdrin â phroblemau penodol tlodi tanwydd mewn tai gwledig. Roedd hyn yn cynnwys ystyried tanwyddau amgen a dulliau ynysu sydd â photensial i'w defnyddio mewn tai sy'n anodd i'w gwresogi. Gallai canlyniadau'r prosiect ymchwil, a fyddai ar gael yn Chwefror 2002, ymddangos cyn i raglenni ymarferol gael eu datblygu i werthuso'r defnydd o'r dewisiadau amgen a oedd yn cael eu hawgrymu. Nododd yr Aelodau fod y Ground Works Trust ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ymwneud â datblygu astudiaeth dichonoldeb i raglen gwresogi solar ar gyfer y sector tai cymdeithasol a bod Welsh Biofuels, eto o Ben-y-bont ar Ogwr, wedi datblygu dull gwresogi arloesol a chynaliadwy a oedd yn golygu defnyddio sbarion pren wedi'u trosi'n beledi pren. Roedd y ddwy dechnoleg wedi'i chynnwys yn yr astudiaeth i danwyddau gwledig.
- Cefnogai'r Pwyllgor y rhaglenni peilot, a oedd yn ymestyn y defnydd o gyllid HEES a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl i ddarparu gwres canolog sy'n gweithio ar olew a mesurau ynysu fel rhan o waith addasu. Fodd bynnag, rhaid oedd cadw'r goblygiadau cost mewn cof wrth ddefnyddio olew fel tanwydd amgen.
- Canmolodd yr Aelodau waith yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n gweithredu ledled Cymru. Teimlid bod Gofal a Thrwsio Cymru yn chwarae rhan sylfaenol yn y gwasanaeth gwella cartrefi a'i fod wedi gwneud cyfraniad holl-bwysig i lwyddiant HEES hyd yma.
- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y modd y mae'r broses asesu mewn perthynas â'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref yn gweithio, ynghyd â dadansoddiad o'r aelwydydd a oedd wedi elwa o'r Cynllun hyd yma.

6.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys y strategaethau sy'n anelu at ddileu tlodi tanwydd yn eu blaen.

**Eitem 7: Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus: LGH-16-01 (p.4)**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Syr Harry Jones, Steve Thomas a Sandy Blair o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi eu cyflwyniad i'r Pwyllgor.
2. Cyflwynodd y Cyng Syr Harry Jones y papur ac eglurodd ei fod eisoes wedi cael ei ystyried gan y Cyngor Partneriaeth. Roeddynt yn falch o dderbyn awgrym y Gweinidog yn y cyfarfod hwnnw y dylai'r mater gael ei drafod gan y Pwyllgor

Llywodraeth Leol a Thai.

3. Dywedodd mai diben y papur yw sefydlu dadl yngln â sut y gellir gwella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi. Roedd yr etholwyr wedi ei gwneud yn glir yn yr Etholiad Cyffredinol diwethaf eu bod am gael gwasanaethau cyhoeddus da, a'i bod yn bryd i'r rhain gael eu cyflenwi. Er mwyn gwneud hynny, credai fod angen i swyddogaethau'r gwahanol gyrff gael eu diffinio.
4. Cydnabyddai'r Cyng Syr Harry Jones fod y berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng llywodraeth leol yng Nghymru, y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth Ganolog, fel y'i hymgorfforir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn destun eiddigedd i gydweithwyr yn Lloegr a bod deialog real a gonest wedi ei sefydlu. Ychwanegodd fod llywodraeth leol wedi cydnabod yr angen am strwythur gwleidyddol sydd wedi ei foderneiddio a bod ymddangosiad 22 cynllun iechyd strategol yn rhoi cyfle i Gymru gynnig model cyfansoddiadol a gwleidyddol a allai arwain y ffordd i lywodraeth ledled y DU.
5. Ailbwysleisiodd y Cyng Syr Harry Jones yr angen am dryloywder yn swyddogaethau'r gwahanol sefydliadau wrth iddynt ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Credai fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru eisoes wedi cael effaith, ond os yw i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r modd y llywodraethir Cymru dadleuai fod angen iddo ganolbwyntio ar ei rôl ganolog o lywio'r modd y llywodraethir Cymru drwy fwrw golwg strategol dros y darlun llawn a thrwy ei esiampl fel y ffenestr siop wleidyddol.
6. Ychwanegodd y dylid gadael y gwaith o gyflenwi gwasanaethau i'r rheini sy'n ei wneud orau – yr awdurdodau lleol. Fodd bynnag, os yw polisïau'r Cynulliad i gael eu gwireddu, pwysleisiodd fod yn rhaid ystyried awdurdodau lleol nid fel asiantau ond fel partneriaid. Os oes gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel i gael eu gwireddu, rhaid mynd i'r afael â'r tangyllido difrifol a gafwyd yn y gorffennol. Rhaid i'r awdurdodau hwythau sylweddoli bod yn rhaid iddynt ymwrthod â rhagfarnau ideolegol yngln â chyflenwi, ac archwilio'r posibiliadau i sicrhau arbedion maint. Mae CLlLC yn argyhoeddedig mai un o'r gofynion allweddol er mwyn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yw cyflwyno system fenthyca ddarbodus i ddarparu cyfalaf.
7. Mynegwyd pryderon gan y Cyng Syr Harry Jones yngln â'r nifer gynyddol o gynlluniau rhanbarthol i gyflenwi gwasanaethau sy'n ymddangos a'r ymddiriedaeth sy'n dal i gael ei rhoi mewn cyrff anetholedig. Nid yn unig nad yw'r rhain yn atebol mewn termau etholiadol ond yn aml nid ydynt yn atebol yn ariannol ychwaith. Gofynnodd am beidio â sefydlu yr un Corff Cyhoeddus pellach sy'n perthyn i'r Cynulliad. Galwodd am symleiddio cynlluniau a mentrau, ac ar i'r Cynulliad ddarparu llywodraeth ddi-fwlch ar y lefel genedlaethol.
8. Yn y drafodaeth gyffredinol, cymeradwywyd sylwedd cyffredinol y cyflwyniad ac, yn arbennig, yr awgrym y dylid diffinio'r berthynas rhwng y gwahanol lefelau o lywodraeth. Rhoddwyd cefnogaeth hefyd i'r egwyddor o lywodraeth ddi-fwlch, a'r gydnabyddiaeth ei bod yn rhaid, er mwyn gwireddu trefn gorfforaethol o weithio, cael gwared yn gyntaf â theyrngarwch llwythol.
9. Roedd y Pwyllgor yn bryderus yngln â nifer y CWANGOS (Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad) sy'n dal i fodoli, gan rybuddio nad oedd y cyrff hyn hyd yn oed yn gwireddu polisi yn aml iawn. Nodwyd bod rhai o'r rheini a wrthwynebwyd yn neilltuol gan CLlLC eisoes wedi eu diddymu. Rhoddwyd rhybudd hefyd yngln â gorddefnyddio'r sector preifat i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid gwarchod

yn erbyn peryglon "rhoi'r gorau iddi" oherwydd colledion elw.

10. Cydnabyddai CLlLC a'r pwyllgor fel ei gilydd fod y berthynas rhwng y ddwy fraich o lywodraeth yn gadarnhaol iawn a bod yn rhaid i'r bartneriaeth ddatblygu er mwyn cyflawni disgwyliadau'r cyhoedd yn gyffredinol sydd, uwchlaw popeth, yn disgwyl tryloywder a symlrwydd yn eu cyrff llywodraethol.
11. Diolchodd y Cadeirydd i Syr Harry a chynrychiolwyr eraill CLlLC am eu presenoldeb ac am fwrw ati i lunio papur diddorol, â gwaith cnoi cul drosto, ar y modd y darparir gwasanaethau cyhoeddus.

**Eitem 8: "It could be you – A guidance to not being homeless for young people"**

1. Talodd y Cadeirydd deyrnged i waith Dennis Donavan a Jeff Rees, dau aelod o Dîm Canolfan y Ddinas a gynhyrchodd y fideo. Diolchodd i Nimrod Jones am fod yn bresennol i gyflwyno'r pwnc yn fyr.
2. Er nad oedd Mr Jones yn aelod o Dîm Canolfan y Ddinas, bu yntau hefyd yn ymwneud â'r cynhyrchiad a dywedodd iddi gymryd tua blwyddyn i'w wneud.
3. Ar ôl gwylio'r fideo, mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad o waith y tîm ac mewn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd dywedwyd wrthynt fod y fideo a'r llyfryn sy'n cyd-fynd ag ef yn mynd o amgylch ysgolion yn ardal Caerdydd. Er nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r fideo gael ei ddosbarthu'n fwy eang, fe'i cyfyngwyd i Gaerdydd hyd yma.
4. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar gynlluniau tebyg a oedd ar waith mewn rhannau eraill o Gymru.

**Eitem 9: Blaenraglen waith fanwl: LGH-16-01 (p.5)**

9.1 Dywedodd y Cadeirydd fod yr Aelodau wedi eu gwahodd i wneud sylwadau ar yr eitemau a gynigiwyd ar gyfer agendâu tymor y gwanwyn. Roedd awgrymiadau wedi dod i law ac fe'u hymgorfforwyd yn y flaenraglen waith fanwl ddrafft.

9.2 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys y flaenraglen waith fanwl.

Mynegwyd pryder gan yr Aelodau yngln â'r amserlen bwyllgorau ddiwygiedig ar gyfer tymor y gwanwyn. Teimlai'r Pwyllgor y dylid bod wedi ymgynghori â'r Aelodau cyn i'r Pwyllgor Busnes gytuno ar yr amserlen. Nodwyd bod y rhaglen wedi ei newid er mwyn darparu ar gyfer newidiadau yn aelodaeth pwyllgorau a'r angen i osgoi gwrthdaro rhwng cyfarfodydd yn sgîl hynny. Ar ôl cytuno ar yr amserlen arfaethedig, ymgynghorwyd â Phanel y Cadeiryddion a chymeradwyodd yntau'r newidiadau. Gofynnodd yr Aelodau am i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd i gofnodi pryderon y Pwyllgor a chan ofyn i'r Pwyllgor Busnes ailystyried yr amserlen.

**Eitem 10: Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 a 21 Tachwedd:**

**LGH-14-01 (min)**

10. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfodydd 15 a 21 Tachwedd.

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD:**

1. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion pellach am y partneriaethau a fyddai'n datblygu ym mhob un o'r ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn dilyn yr ymarferiad mapio a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd.

2. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys manylion yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf am y cyllid a oedd wedi ei ddyrannu i awdurdodau lleol a phartner sefydliadau i'w cynorthwyo i weithredu Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

3. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu copi o'r gwerthusiad o Pobl mewn Cymunedau i'r Aelodau ac i ddod â phapur gerbron y Pwyllgor maes o law.

4. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys yn ei hadroddiad nesaf ganlyniad yr asesiad a wnaed o ddeunydd cyhoeddusrwydd a ddefnyddiwyd tra'n ymgynghori yngln â'r strwythurau rheoli gwleidyddol newydd.

5. Cytunodd y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor am gynigion awdurdodau lleol o ran yr opsiwn y maent yn ei ffafrio o blith y strwythurau rheoli gwleidyddol, gan gynnwys achosion lle mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu strwythur gwahanol i'r un a nodwyd yn ystod yr ymgynghori fel y strwythur a gâi ei ffafrio.

6. Cytunodd y Gweinidog i drafod y posibilrwydd o ddarparu Cartrefi Oes gyda datblygwyr preifat.

7. Cytunodd y Pwyllgor i ymweld â'r datblygiad Cartrefi Oes yn y Bettws, Pen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â datblygiadau eraill cyhoeddus a phreifat ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

8. Cytunodd y Gweinidog i gylchredeg manylion prosiectau unigol a fyddai'n derbyn grantiau o dan y Rhaglen Digartrefedd a Chysgu Allan yn 2001-02 i'r Pwyllgor.

9. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf am y gyfran o gyllid grant y Cynulliad a neilltuir ar gyfer digartrefedd, i gynorthwyo pobl ddigartref i symud ymlaen i lety diogel.

10. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y modd y mae'r broses asesu mewn perthynas â'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref yn gweithio, ynghyd â dadansoddiad o'r aelwydydd a oedd wedi elwa o'r Cynllun hyd yma.

11. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar gynlluniau di-gatref tebyg i'r prosiect yng Nghanol Dinas Caerdydd a oedd ar waith mewn rhannau eraill o Gymru.